

## **Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Iau, 3 Mawrth 2016**

**9.30 - 10.00 Cyfarfod caeëdig**

**10.00 – 1.25 Cyfarfod llawn**

**Prifysgol Caerdydd**

### **Yn bresennol:**

#### **Cyfarwyddwyr:**

Andrew Green (Cadeirydd)  
Beth Button, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr  
Yr Athro Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol  
Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academiaidd / Deon y Coleg  
Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol  
Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)

#### **Sylwedydd:**

Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)

#### **Swyddogion:**

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr  
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd  
Catherine Rees, Ysgrifennydd  
Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd  
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd  
Nia Brown, Swyddog Datblygu

#### **Ymddiheuriadau:**

Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch  
Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol  
Olivia Jones, Prifysgolion Cymru  
Kimberley Meringolo, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) (Sylwedydd)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
<b>1. Cyfarfod caeëdig</b>	<p>1.1 Cadeiriwyd y cyfarfod caeëdig gan yr Is-Gadeirydd, Linda Wyn a chroesawyd yr aelodau a'r Ysgrifennydd i'r cyfarfod.</p> <p>1.2 Cyflwynwyd adroddiad gan Meirion Prys Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, ar rôl y Cadeirydd.</p> <p>1.3 Cytunwyd i anfon yr adroddiad at y Cyfarwyddwyr yn dilyn y cyfarfod.</p>	Anfon yr adroddiad at y Cyfarwyddwyr	Mawrth 2016
<b>2. Croeso a chyflwyniad</b>	<p><i>Ar y pwynt hwn ymunodd y Cadeirydd, swyddogion a'r sylwedydd ar gyfer y cyfarfod llawn.</i></p> <p>2.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd.</p> <p>2.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.</p> <p>2.3 Llongyfarchwyd staff y Coleg ar Gynulliad blynyddol ardderchog yn y Deml Heddwch y noson gynt. Argymhellwyd cyhoeddi anerchiadau'r cyflwynwyr, a oedd o'r radd flaenaf, ar wefan y Coleg.</p>	Trefnu cyhoeddi'r anerchiadau ar y wefan	Mawrth 2016
<b>3. Datganiadau o ddiddordeb</b>	<p>3.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.</p> <p>3.2 Datganodd Dr Rhodri Llwyd Morgan ddiddordeb yn yr eitem Canolfan Rhagoriaeth Iechyd Gwledig oherwydd ymwneud Prifysgol Aberystwyth fel partner gyda Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth.</p>		

<p><b>4. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 25 Tachwedd 2015</b></p>	<p>4.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2015.</p>		
<p><b>5. Gohebiaeth (Eitem 4)</b></p>	<p>5.1 Derbyniwyd gohebiaeth gan UCEA yn cynnig aelodaeth gysylltiol i'r Coleg a chytunwyd i dderbyn yr aelodaeth honno.</p>		
<p><b>6. Materion y Cadeirydd a sefyllfa gyllidebol y Coleg</b></p>	<p>6.1 Derbyniwyd adroddiadau llafar gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd ar sefyllfa gyllidebol y Coleg. Nododd y Prif Weithredwr bod gwybodaeth ategol wedi ei chyflwyno i Adolygiad Diamond a bod cyfarfodydd niferus wedi bod yn digwydd gyda swyddogion a gwleidyddion o'r gwahanol bleidiau.</p> <p>6.2 Adroddodd Beth Button ar ymgyrch Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol Cymru i gefnogi'r Coleg.</p> <p>6.2 Nodwyd llongyfarchiadau i swyddogion y Coleg am y modd y maent wedi mynd i'r afael â chodi ymwybyddiaeth am waith a chyflawniadau'r Coleg.</p>		
<p><b>7. Materion cyfansoddiadol</b></p>	<p>7.1 Derbyniwyd adroddiad llafar gan yr Ysgrifennydd ar gyfarfod y Llys ar 2 Mawrth 2016. Adroddwyd ar waith Gweithgor y Cyfansoddiad, bod yr Adroddiad Blynyddol 2014/15 a'r Cyfrifon Archwiliedig tan 31 Gorffennaf 2015 wedi'u cymeradwyo ac y derbyniwyd diwygiadau i Gylch Gorchwyl y Llys yn sgil newidiadau i'r cyfansoddiad.</p> <p>7.2 Derbyniwyd adroddiad llafar ar y Pwyllgor Penodiadau gan yr Ysgrifennydd. Ystyriwyd a chymeradwywyd newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Penodiadau gan dderbyn unrhyw sylwadau pellach ar e-bost.</p>	<p>NB i gylchredeg y cylch gorchwyl ar gyfer sylwadau</p>	<p>Erbyn 16 Mawrth 2016</p>

<p><b>8. Adroddiad y Prif Weithredwr</b></p> <p><b>(Eitem 8)</b></p>	<p>8.1 Derbyniwyd diweddariad ar waith y Coleg mewn adroddiad gan y Prif Weithredwr a thrafodwyd y materion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymestyn y cytundebau cyllido presennol am flwyddyn er mwyn pontio'r cyfnod tan fod cyfnod cyllido nesaf y Coleg yn cael ei gytuno</li> <li>• Diweddariad ar y Cynllun Staffio</li> <li>• Cynllun Peilot y Dystysgrif Cymhwysedd i Athrawon</li> <li>• Cydweithio â'r sector addysg bellach</li> <li>• Diweddariad ar y paratoadau ar gyfer y Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni, 2016</li> <li>• Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Coleg 2015/16</li> <li>• Cadarnhau gweithdrefnau a threfniadau ar gyfer Gwobrau'r Coleg</li> <li>• Trefniadau'r archwilwyr mewnol i gynnal adolygiad o weithrediad canghennau'r Coleg</li> <li>• Cadarnhau bod y Coleg wedi cytuno i achredu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith trwy Cyd-bwyllgor Addysg Cymru.</li> <li>• Datblygiadau perthnasol mewn addysg uwch yn Lloegr ac yn benodol datblygiad y TEF (Fframwaith Rhagoriaeth Dysgu/Teaching Excellence Framework)</li> <li>• Datblygiadau ym maes iechyd a chynlluniau i gyfrannu at y broses o baratoi strategaeth newydd i Lywodraeth Cymru <i>Mwy na Geiriau 2</i></li> <li>• Diweddariadau ar waith marchnata a chyfathrebu, gweithgareddau ym maes Gwasanaethau Gwybodaeth y Coleg, Rhaglenni Hyfforddiant Academaidd a <i>Gwerddon</i></li> <li>• Diweddariad ar y Gofrestr Risg.</li> </ul>		
<p><b>9. Materion Staffio</b></p>	<p>9.1 Cafwyd diweddariad gan yr Ysgrifennydd ar faterion staffio. Adroddwyd bod Rhian Davies, Swyddog Datblygu (Academaidd), wedi gadael y Coleg a nodwyd na fyddai penodiad yn ei lle ar hyn o bryd. Nodwyd bod swydd arall yn parhau'n wag ac aelod arall ar fin dechrau cyfnod mamolaeth. Mewn ymateb i ofid yr aelodau</p>		

	<p>ynghylch lles y staff wrth i'w nifer lleihau cadarnhawyd bod llwyth gwaith wedi ei ad-drefnu mewn ymgynghoriad â'r staff ac na fyddai rhannau o'r gwaith yn cael eu cyflawni bellach. Nodwyd pe bai aelod o staff mewn rôl arbenigol yn gadael a dim modd i staff eraill gymryd y dyletswyddau, y byddai'r swyddogion yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Staffio i recriwtio. Nodwyd ymhellach bod gwiriadau iechyd wedi'u trefnu ar gyfer y staff ym mis Ebrill.</p>		
<p><b>10. Materion Cyllid</b> <b>(Eitem 10)</b></p>	<p>10.1 Cyflwynwyd cyllideb ddrafft y Coleg ar gyfer 2016/17 (fersiwn 2) gan y Cofrestrydd. Eglurwyd bod y gyllideb ddrafft yn seiliedig ar y cyllid a ddisgwyllir gan Lywodraeth Cymru, drwy CCAUC/HEFCW a bod y toriadau i gyllideb y Coleg yn gyson â thoriadau i gyrff eraill.</p> <p>10.2 Derbyniwyd y gyllideb gan nodi y gallai bod angen ei addasu eto ar ôl cadarnhad o'r gyllideb a ddisgwyllir gan CCAUC/HEFCW. Cadarnhaodd y swyddogion bod ystyriaeth ofalus wedi ei roi i effaith yr argymhellion a oedd yn gysylltiedig â phennu'r gyllideb oedd wedi ei chyflwyno.</p> <p>10.3 Nodwyd a chytunwyd bod cyfnod cyllido'r Coleg ar gyfer 25 swydd academiaidd a noddir drwy'r Cynllun Staffio yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2016. Ategwyd yr angen i fonitro unrhyw newidiadau yn lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i hynny.</p> <p>10.4 Nodwyd a chytunwyd, yn dilyn adolygiad o'r prosiect 'Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg Rhan Amser', a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2016, y bydd y prosiect presennol yn dod i ben ar 31 Gorffennaf.</p> <p>10.5 Ystyriwyd lleiafswm nifer myfyrwyr y dylid eu sicrhau er mwyn ystyried bod darpariaeth yn gynaliadwy, ac argymhellwyd bod angen hyblygrwydd yn dibynnu ar y ddisgyblaeth.</p>		

<p><b>11. Pwyllgor Archwilio a Risg</b> <b>(Eitem 11)</b></p>	<p>11.1 Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg, a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2016, a chafwyd adroddiad ar y cyfarfod gan y Cadeirydd, Geraint James. Cyfeiriwyd at y ffaith bod archwiliad mewnol ar systemau cyflogres a threuliau'r Coleg wedi dangos bod lefel uchel o sicrwydd yn y systemau.</p> <p>11.2 Diolchwyd i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith.</p>		
<p><b>12. Canolfan Rhagoriaeth Iechyd Gwledig</b> <b>(Eitem 12)</b></p>	<p>12.1 Cafwyd cyflwyniad ar gynlluniau'r Coleg i gydweithio â Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth i sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Iechyd Gwledig.</p> <p>12.2 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd mewn egwyddor i'r cynllun; cytunwyd i greu memorandwm o gyd-weithio ar yr amod bod risgiau i'r Coleg, manylion perthynas y Coleg â'r Grŵp a budd i'r Coleg yn cael eu harchwilio ymhellach, cyn cytuno'n ffurfiol. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am y camau nesaf.</p> <p>12.3 Argymhellwyd ymhellach i ystyried strwythur addas i ystyried cyfleoedd o'r math hwn yn y dyfodol.</p>		
<p><b>13. Materion Academaidd</b></p>	<p>13.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar y broses o greu Cynllun Academaidd newydd y Coleg yn sgil y Cynllun Academaidd gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2012. Nodwyd y cyflwynwyd yr un cwestiynau i'r Bwrdd Academaidd ar 3 Chwefror 2016 ac i'r canghennau. Cafwyd trafodaeth gychwynnol ar nifer o agweddau i'w cytuno.</p> <p><i>Ar y pwynt hwn ymadawodd Dr Rhodri Llwyd Morgan.</i></p> <p>13.2 Cafwyd adroddiad llafar gan y Deon, Dr Hefin Jones, ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2016, ar y materion canlynol:</p>		

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodwyd y cafwyd adroddiadau a thrafodaethau ar Adroddiad Diamond, sefyllfa gyllidebol y Coleg a'r Cynllun Academaidd newydd.</li> <li>• Nodwyd gyda thristwch y newydd am farwolaeth Dr John S Davies, Abertawe, academydd ym maes y Gwyddorau ac aelod o Fwrdd Golygyddol <i>Gwerddon</i>.</li> <li>• Derbyniwyd cynllun Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol ac adroddwyd bod adolygiadau o'r cynlluniau Chwaraeon, Diwydiannau Creadigol a Dysgu o Bell yn yr arfaeth.</li> <li>• Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF), cyhoeddi erthyglau yn <i>Gwerddon</i> a'r wasgfa ariannol ar Wasg Prifysgol Cymru a'r bwriad i drafod Strategaeth Ymchwil y Coleg mewn cyfarfod cyn diwedd yr haf.</li> <li>• Cafwyd cyflwyniad gan yr Athro M Wynn Thomas, Is-Lywydd y Gymdeithas Ddysgedig, ar ei hamcanion a'i datblygiadau ers ei sefydlu yn 2011. Nodwyd y cydweithio sydd eisoes rhwng y Gymdeithas a'r Coleg: Darlith Edward Lhuyd a Gwobr <i>Gwerddon</i>.</li> <li>• Nodwyd bod y myfyrwyr yn parhau i gyflwyno pwnc trafod yn y cyfarfodydd ac y trafodwyd adnoddau marchnata ar yr achlysur hwn.</li> <li>• Derbyniwyd adroddiad ar Ehangu Mynediad gan Delyth Murphy. Mae holiadur profiad ehangach ar y gweill ac adroddir ar y canlyniadau maes o law.</li> <li>• Nodwyd y byddai cyfarfod ychwanegol ym mis Gorffennaf i drafod busnes y Bwrdd Academaidd er mwyn neilltuo cyfarfod arferol Mai ar gyfer y cynllun academaidd newydd.</li> <li>• Nododd y Deon ei fod eisoes wedi ymweld â chwe sefydliad ar ei daith flynyddol gyda'r ymweliadau â'r sefydliadau eraill yn parhau ar ôl y Pasg.</li> </ul> <p>Diolchwyd i'r Deon ac aelodau'r Bwrdd Academaidd am eu gwaith.</p> <p>13.3 Cafwyd adroddiad llafar gan Dr Gwyn Lewis ar y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon yn egluro bod y cynllun peilot yn</p>		
--	--	--	--

	cynnwys hyfforddeion TAR uwchradd a chynradd mewn tair canolfan ranbarthol. Mae 176 o hyfforddeion wedi cofrestru ar gyfer y Dystysgrif eleni. Yn sgil llwyddiant y peilot gallai'r Llywodraeth cefnogi parhad y Dystysgrif yn 2016/17.		
<b>14. Materion yn codi</b>	14.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.		
<b>15. Adroddiadau gan Gyfarwyddwyr</b>	15.1 Nid oedd unrhyw adroddiadau gan y Cyfarwyddwyr.		
<b>16. Unrhyw fusnes arall</b>	<p><i>Ar y pwynt hwn ymadawodd yr Athro Jerry Hunter.</i></p> <p>16.1 Cafwyd adroddiad llafar gan Linda Wyn ar 'Rhwydwaith Seren' a'r heriau o annog dilyniant cyfrwng Cymraeg, lle mae hynny'n addas. Trafodwyd y pryder o hyrwyddo sefydliadau y tu allan i Gymru ar drail sefydliadau Cymru.</p>		
<b>17. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf</b>	<p>17.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 22 Mehefin 2016 ym Mhrifysgol Aberystwyth.</p> <p>17.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith ac i staff Prifysgol Caerdydd am eu cymorth am drefnu a lletya'r cyfarfod.</p>		